PROFFIL RÔL

Teitl y Rôl:	Ymchwilydd Twyll ac Ariannol
Graddfa:	SO1/2
Yn atebol i:	Ymchwilydd Ariannol Goruchwyliol / Ditectif Ringyll
Yn gyfrifol am:	Dim Cyfrifoldebau Goruchwylio
Cydgysylltu â:	Swyddogion yr Heddlu, Staff yr Heddlu, y Cyhoedd, Sefydliadau Allanol, Asiantaethau a Phartneriaethau
Lefel Fetio Ofynnol:	MV/SC – Fetio Rheoli a Chliriad Diogelwch
Dyddiad Cyhoeddi:	Mai 2021

Diben y Rôl	Ymchwilio i achosion o dwyll difrifol a llygredigaeth yn y sector cyhoeddus, mewn ymateb i gwynion neu'n rhagweithiol mewn ymateb i achos cudd-wybodaeth credadwy. Ymgymryd ag ymchwiliadau ariannol rhagweithiol ac adweithiol yn unol â chyfarwyddyd ac fel y diffinnir gan Ddeddf Enillion Troseddau 2002 er mwyn tarfu ar weithgareddau Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol. Hyrwyddo a rhoi cyngor, arweiniad a chyfarwyddyd i heddluoedd ar ddefnyddio dulliau atafaelu asedau/gwyngalchu arian fel adnodd rhagweithiol wrth fynd i'r afael â throseddau. Darparu cudd-wybodaeth ymchwiliol ariannol i gefnogi ymchwiliadau'r Uned Reoli Sylfaenol, gan ddatblygu ymchwiliadau mewn perthynas â'r Ddeddf Enillion Troseddau. Casglu, asesu, a dosbarthu cudd-wybodaeth er mwyn atal, nodi ac ymchwilio i droseddau yn unol â'r Model Cudd-wybodaeth Cenedlaethol a'r Uned Reoli Sylfaenol, yr Heddlu, ac Asesiadau Strategol Rhanbarthol a Chenedlaethol.
Prif Gyfrifoldebau	**Cyngor ac Arweiniad** • Asesu gofynion personol cwsmeriaid (gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd) a rhoi digon o gymorth, cyngor ac arweiniad. • Rhoi cyngor ac arweiniad ar faterion amrywiol a chymhleth a uwchgyfeirir sy'n ymwneud â'r maes gwaith. • Datrys problemau cymhleth yn annibynnol, gan gyfeirio unrhyw broblemau difrifol at uwch-gydweithwyr. • Nodi problemau difrifol a'u huwchgyfeirio.
	Gwella Busnes • Cyfrannu at y gwaith o nodi, cynnig a gweithredu datblygiadau a gwelliannau yn y maes, yr uned neu'r prosiect er budd yr heddlu a chwsmeriaid.

	Gwasanaeth Cwsmeriaid a Chynrychiolaeth • Rhoi delwedd a gwasanaeth cadarnhaol i gwsmeriaid mewnol ac allanol. • Mae'n ofynnol i unigolion ymgysylltu'n effeithiol â chwsmeriaid mewnol ac allanol ar bob lefel, er mwyn darparu gwasanaeth o safon uchel. • Cynnal cyfrinachedd mewn perthynas â materion diogelu data a safonau Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu.

HEB FARC DIOGELU

	Trefnu/Cynllunio • Cynllunio a threfnu gwaith i'w gwblhau o fewn fframwaith, safonau ac amserlenni penodol. • Trefnu digwyddiadau/cyfarfodydd yn ôl y cyfarwyddyd. • Gweithredu a chyfrannu at strategaeth gwasanaeth yn ôl cyfarwyddyd. • Datblygu, cynnig a gweithredu cynllun busnes/prosiect cymeradwy ar gyfer yr uned, y pwnc neu'r swyddogaeth. • Nodi adnoddau addas i gyflawni amcanion y maes pwnc neu'r prosiect, a cheisio cymeradwyaeth i'w defnyddio.
	Rheoli Pobl • Monitro a dyrannu llwyth gwaith o fewn y tîm. • Goruchwylio staff o bosibl drwy ddilyn polisi'r heddlu a monitro lefelau perfformiad. • Cynorthwyo'r tîm i baratoi a defnyddio cyfarpar a thechnegau a chynghori ar unrhyw agweddau penodol ar waith yn eich maes eich hun.
	Polisïau a Strategaethau • Ymchwilio i bolisïau, eu hadolygu a'u llunio. • Monitro'r broses o roi polisi ar waith ac adrodd arni er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a nodi materion/problemau.
	Rheoli Prosiect • Trefnu a rheoli'r broses o gyflwyno'r maes pwnc neu brosiectau o ddydd i ddydd, gan gynnwys paratoi a chynllunio adnoddau.
	Rheoli Risg a Chydymffurfiaeth Gyfreithiol • Nodi risgiau yn eich cylch gwaith eich hun a'u lliniaru a rhoi gwybod i eraill am risgiau. • Sicrhau bod yr uned yn cyflawni ei rhwymedigaeth o ran Iechyd a Diogelwch ac uwchgyfeirio problemau difrifol. • Monitro a sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl reoliadau a chanllawiau polisi. • Nodi risgiau, mesur effaith a rhoi cyngor ar ganfyddiadau. • Bodloni rhwymedigaethau o ran deddfwriaeth gysylltiedig.
	Gwasanaeth Cwsmeriaid a Chynrychiolaeth • Rhoi delwedd a gwasanaeth cadarnhaol i gwsmeriaid mewnol ac allanol. • Mae'n ofynnol i unigolion ymgysylltu'n effeithiol â chwsmeriaid mewnol ac allanol ar bob lefel, er mwyn darparu gwasanaeth o safon uchel. • Cynnal cyfrinachedd mewn perthynas â materion diogelu data a safonau Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu (MOPI).
	Yn ogystal, bydd yn rhaid i ddeiliad y swydd fod yn barod i ymgymryd â'r cyfryw ddyletswyddau ychwanegol a all godi yn sgil amgylchiadau sy'n newid, ond nad ydynt, o reidrwydd, yn newid natur gyffredinol na lefel cyfrifoldeb y swydd.
Cymwysterau	**Hanfodol** • Rhaid meddu ar safon dda o addysg i lefel safon uwch o leiaf neu safon gyfatebol, neu'r gallu i ddangos sgiliau a

HEB FARC DIOGELU

	galluoedd cyfatebol. • Rhaid bod yn barod i fynychu'r hyfforddiant amser llawn sydd ei angen ar gyfer rôl (NCA) Swyddog Cudd-wybodaeth Ariannol, Ymchwilydd Ariannol ac Atafaelu ac ennill a chadw'r achrediad angenrheidiol.

HEB FARC DIOGELU

	Dymunol • Ymchwilydd Ariannol Achrededig/Swyddog Cudd-wybodaeth Ariannol. • Trwydded yrru ddilys gyfredol lawn.
Sgiliau	**Hanfodol** • Rhaid meddu ar sgiliau cyfrifiadurol a'r gallu i ddefnyddio rhaglenni Microsoft • Rhaid gallu llunio adroddiadau cymhleth o safon uchel i fodloni derbynwyr. • Rhaid meddu ar sgiliau cyflwyno da i gefnogi'r gwaith o lunio adroddiadau cymhleth ar ffurfiau amrywiol gan gynnwys yn ysgrifenedig, graffigol ac ystadegol. • Tystiolaeth o gynnal Ymchwiliadau Ariannol cymhleth yn llwyddiannus. • Rhaid bod yn barod i fynychu'r hyfforddiant amser llawn sydd ei angen ar gyfer rôl (NCA) Swyddog Cudd-wybodaeth Ariannol, Ymchwilydd Ariannol ac Atafaelu ac ennill a chadw'r achrediad angenrheidiol. • Rhaid gallu trafod â phartneriaid yn effeithiol, gan gynnwys Gwasanaeth Erlyn y Goron a gydag asiantaethau eraill sy'n gorfodi'r gyfraith. **Dymunol** • Ymchwilydd ariannol achrededig, neu'n barod i ymgymryd â'r hyfforddiant priodol. • Cymraeg Iaith Lefel 2 - Yn gallu deall hanfod sgwrs Gymraeg ac yn gallu cyfleu gwybodaeth sylfaenol ac ymateb i geisiadau syml yn Gymraeg. Yn gallu trosglwyddo galwadau ffôn yn Gymraeg. Yn gallu cyflwyno eich hun a phobl eraill yn ôl enw, rôl a lleoliad/sefydliad. Yn gallu cyfrannu at gyfarfod yn rhannol yn Gymraeg.
Gwybodaeth	**Hanfodol** • Rhaid meddu ar wybodaeth am ddeddfwriaeth/gweithdrefnau perthnasol. • Rhaid dangos gwybodaeth am y maes rydych yn gweithredu ynddo, gan gynnwys trosedd/cyffuriau, a dealltwriaeth o weithgarwch troseddol mewn meysydd eraill. • Gwybodaeth am gyfrifoldebau ymchwilwyr mewn achosion troseddol, er enghraifft y system ddatgelu a'r Cod Ymarfer o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE). • Rhaid meddu ar brofiad o ddelio ag ymchwiliadau drwy gyfrwng NICHE a HOLMES. • • Rhaid gallu dangos profiad diweddar a pherthnasol o ymchwilio i achosion cymhleth a mynd ymlaen â nhw hyd at Lys y Goron.

Rhinwedau Personol	**Gwasanaethu'r Cyhoedd** Dangos cred wirioneddol mewn gwasanaethu'r cyhoedd, gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r cyhoedd ac a fydd o'r budd mwyaf iddynt Deall disgwyliadau, anghenion a phryderon cymunedau gwahanol a cheisio mynd i'r afael â nhw Meithrin hyder y cyhoedd drwy siarad â phobl mewn cymunedau lleol er mwyn ystyried eu safbwyntiau a chwalu'r rhwystrau rhyngddyn nhw a'r heddlu

	Deall effaith plismona ar gymunedau gwahanol a'r buddiannau iddynt a nodi'r ffordd orau o ddarparu gwasanaethau iddynt Datblygu partneriaeth ag asiantaethau eraill er mwyn darparu'r gwasanaeth cyffredinol gorau posibl i'r cyhoedd **Proffesiynoldeb** Gweithredu ag uniondeb, yn unol â gwerthoedd Gwasanaeth yr Heddlu Cymryd perchenogaeth wrth ddatrys problemau, gan ddangos dewrder a gwydnwch wrth ymdrin â sefyllfaoedd anodd a allai fod yn ymfflamychol Gweithredu ar eich liwt eich hun i fynd i'r afael â materion, gan ddangos agwedd gref at waith a gwneud ymdrech ychwanegol pan fo angen Cynnal safonau proffesiynol, gan weithredu fel model rôl i eraill a herio ymddygiad amhroffesiynol neu wahaniaethol. Aros yn ddigyffro a phroffesiynol dan bwysau, gan leddfu gwrthdaro a bod yn barod i gymryd rheolaeth pan fo angen **Arwain Newid** Agwedd gadarnhaol tuag at newid, addasu ffyrdd gwahanol o weithio ac annog hyblygrwydd ymhlith eraill Chwilio am ffyrdd o wella gwerth am arian a'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu bob amser, gan awgrymu newidiadau ac annog eraill i gyfrannu syniadau Mabwysiadu dull arloesol a chreadigol ar gyfer datrys problemau Gofyn am adborth a gweithredu arno, gan ddysgu o brofiad a pharhau i ddatblygu eich sgiliau a'ch gwybodaeth broffesiynol eich hun. **Arwain Pobl** Ysbrydoli aelodau o'r tîm i gyflawni nodau heriol, gan roi cyfarwyddiadau a datgan disgwyliadau'n glir Cydnabod cyflawniadau unigolion a thimau drwy dynnu sylw at waith da a'i wobrwyo Cydnabod pan fydd pobl yn colli'r awydd i weithio, a rhoi hwb a chefnogaeth pan fydd hynny'n digwydd Rhoi adborth gonest ac adeiladol er mwyn helpu pobl i ddeall eu cryfderau a'u gwendidau Hyfforddi a rhoi arweiniad i aelodau'r tîm, gan nodi meysydd i'w datblygu a mynd i'r afael â nhw **Rheoli Perfformiad** Deall amcanion a blaenoriaethau'r sefydliad a sut mae eich gwaith eich hun yn cyd-fynd â'r rhain Cynllunio a threfnu tasgau yn effeithiol i gynnal a gwella perfformiad Rheoli cyfres o flaenoriaethau, gan ystyried pethau'n ofalus ymlaen llaw, cydbwyso adnoddau a chydgysylltu

	gweithgareddau i gwblhau tasgau mewn pryd Deall cryfderau aelodau o'r tîm, gan ddirprwyo'n briodol a chydbwyso llwythi gwaith y tîm Monitro'r hyn a gaiff ei gyflawni er mwyn sicrhau bod tasgau wedi cael eu cwblhau i'r safon ofynnol, a mynd i'r afael â thanberfformiad yn effeithiol

	Gwneud Penderfyniadau Casglu, dilysu ac asesu gwybodaeth i feithrin dealltwriaeth gywir o sefyllfaoedd Ystyried amrywiaeth o opsiynau posibl cyn gwneud penderfyniadau clir, amserol a rhesymol Adolygu penderfyniadau, o ystyried gwybodaeth newydd ac amgylchiadau newidiol Cydbwyso risgiau, costau a buddiannau, gan ystyried effaith ehangach penderfyniadau Arfer disgresiwn a barn broffesiynol, gan sicrhau bod camau gweithredu a phenderfyniadau yn gymesur ac er budd y cyhoedd **Cydweithio ag Eraill** Cydweithio ag eraill er mwyn cyflawni pethau, gan fod yn barod i roi help a chymorth i gydweithwyr Yn hawdd mynd atoch, gan feithrin cydberthnasau gwaith cadarnhaol ac ysbryd tîm da Esbonio pethau'n dda, gan sicrhau bod cyfarwyddiadau'n glir a siarad â phobl gan ddefnyddio iaith y maent yn ei deall Gwrando'n ofalus a gofyn cwestiynau er mwyn sicrhau dealltwriaeth, gan leisio eich barn eich hun yn gadarnhaol ac yn adeiladol Darbwyllo pobl drwy bwysleisio manteision dull gweithredu penodol, rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt a rheoli eu disgwyliadau Bod yn foesgar, yn gwrtais ac yn ystyriol, gan ddangos empathi a thosturi Trin pobl fel unigolion a mynd i'r afael â'u hanghenion a'u pryderon penodol Trin pobl â pharch ac urddas, gan ymdrin â nhw'n deg a heb ragfarn, ni waeth beth fo'u cefndir na'u hamgylchiadau

Rhaid i bob unigolyn yn Heddlu De Cymru ddangos y rhinweddau i allu gweithio mewn sefydliad â grwpiau lleiafrifol a darparu gwasanaeth i grwpiau lleiafrifol mewn cymunedau. Rhaid dangos gallu i gyfrannu at amgylchedd gwaith agored a theg lle ni chaniateir ymddygiad anaddas. Ni ddylent ddangos unrhyw dystiolaeth y byddant yn debygol o gyfrannu at unrhyw achos o fwlio yn y gweithle nac unrhyw fath arall o ymddygiad gwahaniaethol.

Dull Asesu

Wrth gwblhau eich cais, sicrhewch eich bod yn cwblhau'r adrannau wedi'u marcio isod yn unig am mai'r rhain yw'r adrannau a fydd yn cael eu hystyried yng nghamau rhestr fer eich cais.

	Rhestr fer
Cymwysterau	✔
Sgiliau	✔
Gwybodaeth	✔
Rhinwedd Bersonol – Gwasanaethu'r Cyhoedd	
Rhinwedd Bersonol – Proffesiynoldeb	✔
Rhinwedd Bersonol – Arwain Newid	
Rhinwedd Bersonol – Arwain Pobl	
Rhinwedd Bersonol – Rheoli Perfformiad	✔
Rhinwedd Bersonol – Gwneud Penderfyniadau	✔

Rhinwedd Bersonol – Gweithio gydag Eraill	